

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR GWAITH 19 Chwefror 2019

Presennol
Cadeirydd – Cyng C Larsen

W T Owen, J W Parry, A Hopcyn, C Williams, D Jones, W R Owen, R Thomas, I C Thomas

Siaradwr Gwadd : Mr Peter Simpson

Roedd Mr Simpson wedi bod allan yn ymweld ar lleoliadau ar ein rhestr biniau newydd .

Cafwyd trafodaeth eang ar bob leoliad – gweler rhestr amgaeedig (gadawodd Cyng W R Owen ar ddiwedd trafodaeth y siaradwr gwadd am 18.09)

1. Ymddiheuriadau

Cyng E R Hughes

2. Datgan Buddiant Personol

Dim

3.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc), er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

4. Adolygu am y flwyddyn :

- . Glanhau strydoedd- dim yn meddwl bod y 200 awr wedi gwneud gwahaniaeth digonol – **penderfynwyd** – trafod yn y cyfarfod efo Steffan Jones (ac efallai ystyried o dan swydd disgrifiad eitem 5)
- . Cysgodfannau bysus- pawb yn hapus a **Penderfynwyd** i Andy parhau iw glanhau . Cafwyd trafodaeth am Rhosbodrual , gan bod y llinellau melyn lawr bellach **Penderfynwyd** ail ofyn os ydi'r preswylwyr yn dymuno symud y cysgodfan bws yno . Gofynnwyd am diweddariad ar y ddau cysgodfan oedd wedi eu lythyru. Nododd y cleric bod dros 30 o enwau a deiseb yn gwrthwynebu un yn Llanbeblig wedi dod i law (gan gynnwys llythyr

gan yr Heddlu a dim un llythyr o blaid – felly ni fydd yn symud ymlaen . Doedd dim llythyrau o blaid nag yn erbyn yr un yn Doc Fictoria , felly y clerc yn parhau trafodaethau ar perchennog tir.

- . Torri gwair/fynwent – angen ymateb i'r tyfiant yn lle torri bob 6 wythnos , ond wedi gweld gwahaniaeth -**penderfynwyd** parhau ar trefniant
- . Biniau Halen – Gan bod y gaeaf wedi bod yn un ysgafn heb cael unrhyw trafferthion (angen sicrhau bod Cyngor Gwynedd wedi rhoi labeli arnynt) . **Penderfynwyd** – atgoffa Cyngor Gwynedd am y labeli yn y cyfarfod efo Steffan a gofyn am y biniau i Feed my Lambs a St Davids Rd
- . Hebog – wedi trafod a Islwyn , disgwyl am ymateb Hwb – **penderfynwyd** i atgoffa Islwyn er mwyn cael dyddiadau a cofio am rhai llefydd fel Rhosbodrual tro ma
- . Biniau – wedi trafod o dan yr eitem siaradwr gwadd

5. Rhybudd o Gynnig Cynghorydd Jason Wayne Parry

Pâr: Sbwriel

Nododd Cyng J W Parry y cefndir bod lot fawr o litter picks yn digwydd , ac yn ymwybodol bod Cyngor Bethesda wedi cychwyn talu rhywun i wneud gwaith tebyg . Roedd y clerc wedi derbyn copi o swydd ddisgrifiad yr unigolyn hwnnw.

Roedd pawb yn cytuno ar syniad ond yn teimlo efallai bod angen edrych ar wahanol elfennau ac efallai angen cynyddu'r swydd disgrifiad . Angen sicrhau bod yr hawl ganddo ni i wneud hefyd , felly awgrymu cyfarfod a swyddogion Cyngor Gwynedd a swyddog cyfreithiol, ynghyd a holi Cyngor Bethesda os cafodd yr elfen yma sylw ganddynt

Penderfynwyd

Cefnogi mewn egwyddor a'r Cadeirydd a'r clerc i gael cyfarfod a Steffan Jones ynghyd a swyddog cyfreithiol Cyngor Gwynedd i sicrhau bod ganddo ni hawl i gyflogi rhywun i wneud gwaith ar ei tir nhw , cyn medru edrych ar swydd ddisgrifiad .

Gorffennodd y cyfarfod am 6.45

Arwyddwyd Dyddiad

